

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 27<sup>AIN</sup> MAI 2020**  
**(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Elen H Edwards (EHE), Ann Vaughan (AV), Gwynfor Davies (GD) Garffild Ll Lewis (GLL), Einir Williams (EW) a Mark Davies (MD)

**1.3** Ymddiheuriadau: (methu bod yn bresennol oherwydd problemau cysylltu â'r wê) Diane Roberts (DR) a R. Emlyn Williams (REW)

**1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW) a Gwydion Jones (GJ)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

EHE: mainc solar.

**3 COFNODION I'W GWIRO 26<sup>AIN</sup> CHWEFROR 2020**

EHE yn cynnig yn gywir ac AV yn eilio.

**4 MATERION YN CODI 3) UCHOD**

Wedi eu trafod yn 5. isod.

**5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD**

Mainc Solar: dim ymateb wedi bod i'r hysbysebion. EHE yn cynnig gofyn i Kevin Roberts i ymgymryd â'r gwaith. Gan fod pawb yn gytun, pasiwyd gofyn i Kevin Roberts.

Ffyrdd wedi cau: trafodaeth am y ffyrdd wedi cau, GLL yn cadarnhau na fuasai'r ffordd wedi cau am 18 mis.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd oherwydd y cyfyngiadau presennol oherwydd Covid-19, roedd pawb yn gytun o dan yr amgylchiadau i drafod y ceisiadau ar gyfarfod ar y wê yn ystod y cyfarfod nesaf. CR am ofyn am estyniad ar gyfer ymateb i'r ceisiadau o dan yr amgylchiadau.

**7 MATERION Y CYNGOR**

**7.1** Lleodd Lleol i Natur: Cododd CR fod y tir ger y cwrt aml-bwrpas yn Llangernyw wedi cael ei grybwyll ar gyfer y prosiect hwn. Angen gwybod pwy sydd berchen y tir cyn gallu symyd ymlaen efo'r prosiect. Trafodwyd fod y prosiect yn agored i leoliadau ym Mhandy Tudur a Gwytherin hefyd. CR am gysylltu â'r prosiect i weld beth fydd y camau nesaf.

**7.2** Tybiau Blodau: AV yn adrodd ei bod wedi trefnu fod gwirfoddolwyr yn Llangernyw, Pandy Tudur a Gwytherin (EW wedi cytuno i wneud yn Gwytherin) i roi blodau haf newydd yn y tybiau. AV wedi prynu blodau ar ran y Cyngor, pawb yn hapus fod y Cyngor am dalu'n ôl amdanynt. Pawb yn gytun efo'r trefniant hwn. Plant lleol hefyd am roi lluniau Enfys i fyny yn y pentrefi i ddangos cefnogaeth i'r gweithwyr GIG.

**7.3** Awdit Cymru: GD yn adrodd ei fod wedi trafod efo DR, mae hi'n hapus i baratoi'r ddogfen gwariant cyn iddi fynd at y cyfrifydd. EHE yn cadarnhau fod modd rhannu'r ddogfen ar y sgrîn yn ystod cyfarfod o'r Cyngor ar y wê. Angen rhoi rhybydd i fyny yn y tair cymuned na fydd y cyfrifon ar gael oherwydd rhwystrau Covid-19. EHE am yrru'r dogfen ymlaen i CR i'w harwyddo a'i ddsbarthu i'r 3 pentref. Pawb yn gytun efo'r trefniant yma. Pawb yn cytuno i DR baratoi'r ddogfen gwariant, GD i basio'r neges ymlaen iddi.

**8 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR**

Adroddiad wedi ei ddsbarthu i'r Cynghorwyr o flaen y cyfarfod:

“Materion Cyngor Sir

- Ers i'r cyfyngiadau Coronavirus ddod i rym, mae holl gyfarfodydd a phwyllgorau 'wyneb yn wyneb' y Cynghorwyr Sir wedi eu canslo neu eu gohirio
- Yn raddol bach, mae rhai pwyllgorau wedi ail ddechrau gan ddefnyddio technoleg Skype neu Zoom. Eisoes fe gynhaliwyd Pwyllgor Cynllunio ac mae dau gyfarfod o bwyllgor Cynghorwyr Gwledig wedi eu cynnal. Mae trefniadau ar y gweill i gynnal pwyllgorau Craffu ym meysydd Cyllid, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a Priffyrdd cyn hir. Fe fydd hyn yn gyfle i Gyngorwyr herio a chraffu ar waith Swyddogion a'r Cabinet dros y cyfnod anghyffredin hwn.
- Mae Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (AGM) y Cyngor wedi ei ohirio ac mae rhai oblygiadau cyfreithiol a chyfansoddiadol i hynny (ethol Cadeirydd newydd ayb)
- Mae Arweinwyr Cynghorau Sir Cymru yn cyfarfod yn wythnosol i drafod materion sydd yn gyffredin i bob Awdurdod Lleol – y prif heriau ar hyn o bryd yw materion ariannol a chyllidol, cynllun profi a tracio newydd Llywodraeth Cymru (fydd yn cael ei weithredu drwy'r Cynghorau Sir), cynlluniau i ddechrau llacio cyfyngiadau a sut i'w gweithredu, a heriau sylweddol ail-agor ein hysgolion.
- Mae'r canolfannau ail-gylchu gwastraff cartref ym Mochdre ac Abergele wedi ail- agor yr wythnos yma gyda system trefnu ymweliadau o flaen llaw ar y ffôn neu ar-lein.
- Fe ddechreuodd y gwasanaeth casglu gwastraff gardd/gwyrdd yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac er bod problemau mewn rhai ardaloedd (gan gynnwys Pandy Tudur) ar y dechrau, mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio yn effeithlon ac mae 17,300 wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth drwy'r Sir
- Mae'n rhaid canmol swyddogion a gweithwyr y Cyngor Sir – mae nhw'n gweithio yn ddi-flino i gynnal gwasanaethau a nifer sylweddol wedi gorfod newid y ffordd y mae nhw'n gweithio, a nifer hefyd wedi eu symud i swyddi eraill dros gyfnod Coronavirus
- Mae Iwan Davies y prif Weithredwr a Sam Rowlands Arweinydd y Cyngor, yn ogystal ag Aelodau'r Cabinet yn cysylltu'n wythnosol hefo ni Gyngorwyr, i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn yr Awdurdod.

#### Materion Lleol

- Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol â sefydlwyd gan y Cyngor Sir wedi bod yn ddefnyddiol i nifer o bobl yn yr ardal. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cymorth i unigolion neu deuluoedd sydd yn methu teithio i nôl bwyd neu feddyginiaeth ac yn gwneud trefniadau i gludo pethau allweddol i gartrefi pobl anghenus. Ar hyn o bryd mae'r swyddogion yn ymdopi â'r galw sydd ar y gwasanaeth, ond mae trefniadau wrth gefn hefyd mewn sawl cymuned, gan gynnwys Llangernyw a Gwytherin i gael tîm o wirfoddolwyr i gynorthwyo, petai'r galw yn cynyddu – gan obethio na fydd hynny'n digwydd.
- Yn ogystal â hynny mae gwasanaeth darparu bwyd wedi ei sefydlu yn Llanrwst, ac mae'r gwasanaeth yn ymestyn i ardaloedd Pentrefoelas, Llangernyw, Pandy a Gwytherin. Rydw'i wedi trefnu bod system yn bodoli fydd yn sicrhau urddas a chyfrinachedd i'r rhai sydd angen help, ac mae'r Parchedig Gwenda Cooper wedi cytuno i fod yn gyd-lynydd lleol. Gwenda fydd y bont rhwng rhai sydd angen cymorth i gael bwyd, a threfnydd y gwasanaeth yn Llanrwst. Hyd yma mae 18 o deuluoedd yn nalgylch Dyffryn Conwy wedi cael help.

- Un o sgîl effeithiau'r cyfyngiadau Coronavirus yw bod llawer llai o ddefnydd o geir – a'r ffyrdd yn dawel ar y cyfan. Ond yn anffodus, mae nifer wedi manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r ffyrdd fel traciau rasio ac mae gor-yrru wedi bod yn weddol gyffredin drwy Llangernyw. Rydw'i wedi bod yn gweithio'n agos hefo Heddlu'r Gogledd i gynyddu presenoldeb plismyn yn y pentref a'r ardal, ac fe welwyd hynny yr wythnos ddiwethaf gyda sawl car Heddlu o gwmpas, ac un car gyda camera cyflymder hefyd wedi ei barcio wrth yr ysgol am gyfnod. Bydd yr Heddlu yn ceisio parhau i gynnal y presenoldeb – er bod pwysau arnyn nhw i ddelio gyda phroblemau tebyg mewn pentrefi eraill yn ein hardaloedd gwledig.
- Problem arall yn yr ardaloedd yma – fel sawl ardal arall – yw dyfodiad pobl o ardaloedd eraill i aros mewn tai haf neu ail-gartrefi, neu hyd yn oed yn ymweld â theluoedd neu ffrindiau – neu i fynd i gerdded a mwynhau cefn gwlad. Mae'r gweithgareddau yma i gyd yn groes i ganllawiau a deddfau Llywodraeth Cymru a rydw'i ar sawl achlysur wedi cysylltu â'r Heddlu i roi manylion iddyn nhw, ar ôl i bobl leol gysylltu hefo fi. Mae'r Heddlu wedi ymateb yn briodol ac ar sawl achlysur wedi rhoi cyngor a rhybydd i bobl sy'n torri'r gyfraith neu fynd yn groes i ganllawiau.
- Er gwaetha'r Coronavirus, mae gwaith a gweithgareddau eraill yn parhau. Wedi i mi anfon rhestr i'r Cyngor Sir rai wythnosau yn ol o'r gwaith atgyweirio sydd angen i'w wneud i ffyrdd yr ardal, mae'r Cyngor wedi dechrau ar rhywfaint o'r gwaith. Rydw'i yn ymwybodol eich bod wedi derbyn wybodaeth am waith fydd yn cael ei wneud ger Nant y Wrach a Rhan Hir (peidiwch â phoeni bod y Cyngor wedi nodi cyfnod gwaith o 18 mis – mae hyn yn gyffredin er mwyn cael Gorchymyn Cau Ffordd, ond pan fydd y gwaith yn dechrau fe fydd yn parhau am tua 2 wythnos). Fe fydd ffyrdd eraill yn cael eu hatgyweirio hefyd maes o law a fesul dipyn pan fydd cyllid yn caniatu hynny.
- Rydw'i hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r cwmni cyflenwi trydan i sicrhau bod y gwifrau trydan drwy'r pentref yn ddiogel. Mewn sawl lleoliad roedd angen torri neu docio coed oedd yn tyfu'n rhy agos i wifrau trydan – ac fe lwyddwyd i gael caniatad nifer o wahanol dirfeddianwyr er mwyn i gontractwyr wneud y gwaith tocio.
- Mae'n anodd credu yn y tywydd braf cyfredol – ein bod rai misoedd yn ol yng nghanol llifogydd difrifol yn y pentref a'r ardal. Roedd yn gyfnod torcalonnus i nifer, gyda difrod sylweddol i gartrefi ac eiddo. Yn y tymor byr, fe lwyddais i helpu nifer o unigolion i gael cymorth arianno, ond mae problem hir-dymor yn ardal y Bont Faen gyda gwaith angen i'w wneud i atgyweirio a chryfhau walïau. Rydw'i yn disgwyl adroddiad manwl gan Swyddogion Adran Priffyrdd ac Amgylchedd y Cyngor Sir ar gyflwr y lleoliad a manylion cynlluniau i wella'r sefyllfa cyn yr Hydref. Roeddwn i fod hefyd i gyfarfod ag Arweinydd y Cyngor Sir a Phrif Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru mewn gwahanol leoliadau yn yr ardal, i drafod effaith newid hinsawdd ar yr ardal gyfan a sut i leihau risg llifogydd i'r dyfodol. Yn anffodus fe gafodd y cyfarfod hwnnw ei ohirio oherwydd y Coronavirus. Rydw'i yn gobeithio ail drefnu pan fydd amgylchiadau yn caniatu hynny.
- Mae'n gyfnod anodd iawn i Gynghorau Cymuned oherwydd y cyfyngiadau ar gyfarfodydd, ond mae'n bwysig iawn o fewn y gyfundrefn Ddemocrataidd i waith y Cynghorau barhau – ac yn enwedig efallai ym maes Cynllunio. Er fod y broses Gynllunio wedi arafu ychydig yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Cyngor Sir yn dal i brosesu ceisiadau, ac fe fydd pwyllgorau Cynllunio yn cael eu cynnal yn gyson, felly mae'n holl bwysig i'r Cynghorau Cymuned drafod a delio hefo ceisiadau cyn gynted â phosib lle mae hynny'n bosib. Fe fydd yr argyfwng yma yn dod i ben yn raddol, ac fe fydd ein trigolion yn awyddus i fynd ati i adeiladu ac addasu eiddo a chartrefi.

Gair o ddiolch i gloi.

Rydw'i yn ymwybodol eich bod wrthi yn gweithio'n galed ac yn aml yn dawel bach yn y gymuned, i helpu eraill ac i gadw a chynnal bywyd yr ardal dan amgylchiadau'r 'normal newydd'. Rydw'i yma i gefnogi a chynorthwyo – ac i fod yn bont rhwng ein cymunedau a'r Cyngor Sir ac fe fydd y berthynas honno rhwng y Cyngor a'n cymunedau yn allweddol dros y cyfnod anodd a sensitif nesaf, pan fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau cyfredol yn dechrau cael eu llacio a'u dileu.

Gan obeithio y cawn ni gyfarfod wyneb yn wyneb cyn hir.”

**EW** yn ategu'r adroddiad fod gweithwyr y Cyngor ddim yn cael y clod maent yn haeuddu yn sgîl Covid-19.

**CR** yn codi problem sylfaen y Bont Faen. GLL yn adrodd wrth y Cynghorwyr ble'n union mae'r difrod i'r bont. GLL yn adrodd fod sylfaen y bont ei hun yn gadarn ond fod difrod i'r dorlan ayyb.

**CR** yn gofyn os oedd datblygiad ynglyn a gor-yrru. Heddlu wedi bod, dim digon o dystiolaeth i gymeryd camau pellach ar hyn o bryd.

**GLL** yn codi fod REW wedi sôn am loriau mawr yn Gwytherin. Gofynnodd i EW ac REW drafod lleoliadau ar gyfer arwyddion i rybuddio loriau mawr. GLL am ail godi'r mater efo'r swyddog yng Nghonwy ar ôl clywed ymhellach gan REW a EW.

**AV** yn gofyn os oedd modd cael arwyddion du efo 20mya arnynt yn Llangernyw. Wedi sylwi fod arwyddion fel hyn yn Llanrwst. GLL yn adrodd fod y Cyngor angen tystiolaeth i roi'r arwyddion yma i fyny.

## **9 BILIAU**

**9.1** Cyfrifydd (gwaith TAW): £60, cytuno i'w dalu.

**9.2** Yswiriant i BHIB Insurance Ltd: £346, cytunwyd i'w dalu.

**9.3** Torri Mynwentydd (dau dorriad) i Dei Evans: £800, cytunwyd i'w dalu.

## **10 MATERION LLEOL**

**EHE** codi fod gor-yrru dal i fod yn broblem yn ardal Llangernyw.

**GD** camfa o dan Tyn y Ffordd ar dir Llwyn Du Isa angen cael ei drwsio.

**EW** wedi derbyn cwyn am bolyn telegraph sydd yn amharu ar y ffordd. GLL yn adrodd fod problem tebyg wedi bod yn Llangernyw yn ddiweddar a fod y cwmni trydan wedi bod allan i edrych ar y broblem. GLL yn cynnig cysylltu â'r cwmni ar ran EW petai'n cael y manylion.

**CR** wedi cael cwyn am gordyfiant ar lwybr cerdded Tyn y Ffordd i Cae Llwyn Du. Kevin Roberts wedi paratoi pris am glurio am £480. Angen gofyn am ganiatad i'r Cyngor Sir, EHE am basio manylion cyswllt i CR wneud hyn.

## **11 CYFARFOD NESAF**

3<sup>ydd</sup> Mehefin 2020

Cyfarfod yn dod i ben 8:20yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan